# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol Ac Adfywio

## SJR(2)-14-06(p.1)

### Dyddiad: 19 Hydref 2006
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
### Teitl: Cymunedau yn Gyntaf: Y Diweddaraf am Fentrau a Gwerthusiad Interim Cymunedau yn Gyntaf

#### Diben

Hysbysu'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed hyd yma ar weithredu Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

#### Crynodeb

Yn ystod y cyfarfod Pwyllgor yng Nghanolfan y Rhosyn Gwyn, Tredegar ar 6 Gorffennaf, cyflwynais y newyddion diweddaraf am gynnydd Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r papur hwn yn rhoi sylw i'r cynnydd a wnaed ers y dyddiad hwnnw ac yn gwahodd sylwadau gan y Pwyllgor ar y Gwerthusiad Interim terfynol o adroddiad Cymunedau yn Gyntaf cyn iddo gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn. Nodir y cynnydd allweddol isod:

#### Prif ffrydio

Rwy'n teimlo ei bod yn bwysig ailadrodd eto pa mor bwysig yw i sefydliadau cenedlaethol a lleol brif ffrydio eu rhaglenni a'u polisïau er mwyn cefnogi gweithgareddau Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf. Rwyf i fel Gweinidog yn gweithio gyda'm staff ar lefel swyddogol i sicrhau bod meysydd ledled y Cynulliad a thu hwnt yn prif ffrydio eu rhaglenni a'u polisïau mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Rhaid i ni dderbyn bod llwyddiant Cymunedau yn Gyntaf yn dibynnu ar ddarparwyr gwasanaethau eraill yn ymgysylltu â'r rhaglen ac â phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf lleol.

Mae rhai enghreifftiau o gydweithio ar lefel genedlaethol yn cynnwys y cydweithio agos rhwng fy swyddogion a'n cydweithwyr yn yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (AADGOS) i sicrhau'r cyfleoedd hyfforddi a datblygu gorau posibl ar gyfer gweithwyr ieuenctid a gyflogir i weithio mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf gan Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a'u Cyrff sy'n Derbyn y Grantiau. Cynrychiolir Cymunedau yn Gyntaf hefyd ar Grwp Cynghori sy'n helpu i lunio Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid i Gymru. Mae gweithwyr ieuenctid a gyflogir mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu'r strategaeth. Yn ogystal, rwyf i a'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi cytuno i gydweithio ar agenda hyfforddiant datblygu cymunedol y gweithlu. Rydym wedi sefydlu Grwp Gorchwyl a Gorffen i

drafod sut y gallwn ni sicrhau bod gan Gymru ddigon o weithwyr datblygu cymunedol â hyfforddiant proffesiynol a sut y gallwn ni sicrhau cynnydd. Mae hyn yn hynod o bwysig o ystyried y trafodaethau am staffio ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf yn y cyfarfod Pwyllgor diwethaf.

## Mynegai Amddifaded Lluosog Cymru

Yn y pwyllgor Cyfarfod diwethaf, trafodwyd sut y llwyddodd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2005 i gyflwyno gwybodaeth fwy manwl a chyfredol am anfantais mewn ardaloedd penodol o Gymru, gan nodi ardaloedd newydd i gael eu hystyried. Cyflwynais fy argymhellion ar sut i integreiddio'r 46 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is sydd bellach ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig a heb eu dynodi fel ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf i mewn i'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

Rwyf bellach wedi ysgrifennu at yr holl randdeiliaid yn y 46 ardal, gan eu gwahodd i gyflwyno ceisiadau i ddod yn rhan o'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Bydd angen i'r ceisiadau ddangos tystiolaeth o ymgynghori manwl a chynhwysol â phreswylwyr lleol, grwpiau cymunedol a phartïon eraill â buddiant. Er mwyn sicrhau trafodaeth leol gynhwysfawr ac ymgysylltu â'r holl randdeiliaid lleol, rwyf wedi pennu 30 Mawrth 2007 fel dyddiad cau ar gyfer y ceisiadau. Byddaf yn ystyried y ceisiadau hyn wedyn ac yn sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar y gwersi a ddysgwyd gan y gwerthusiad.

## Adolygiad o Sefydliadau Cronfa Gymorth Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf

Yn y cyfarfod Pwyllgor fis Rhagfyr diwethaf fe hysbysais yr aelodau fod y trefniadau cymorth ar gyfer Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf wedi ein gwasanaethu'n dda ym mlynyddoedd cyntaf Cymunedau yn Gyntaf, ond bod angen bellach gwerthuso'r cymorth a roddir, nodi'r hyn sy'n gweithio a chanfod unrhyw fylchau posibl.

Mae'r Adolygiad o Sefydliadau Cymorth bellach wedi'i gwblhau gan Uned Ymchwil a Gwybodaeth Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio'r Cynulliad. Mae'r prosiect wedi ceisio sefydlu beth fydd natur ac ystod anghenion cymorth Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf o 2007 ymlaen (mae'r trefniadau cyfredol ar waith tan fis Mawrth 2007). Nid yw'r adolygiad yn cynnwys Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf (fe'i hadolygwyd yn 2005), ond mae wedi cynnwys y sefydliadau eraill sy'n darparu cymorth. Anfonwyd holiadur i'r holl Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf er mwyn cael gwybod am eu blaenoriaethau a'r meysydd allweddol lle bydden nhw'n croesawu cymorth. Yn ogystal, aed ati i gyfweld â'r sefydliadau sy'n rhoi cymorth ar hyn o bryd er mwyn dysgu am eu syniadau.

Mae'r canfyddiadau'n dangos bod sefydliadau sy'n derbyn cyllid ar hyn o bryd i ddarparu cymorth (ac eithrio'r Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf) yn methu â diwallu holl anghenion y partneriaethau. Mae hyn oherwydd yr amrywiaeth eang o ran blaenoriaethau'r partneriaethau; y lefelau datblygu gwahanol ymysg y partneriaethau; a'r atebion a'r dulliau amrywiol sy'n berthnasol ac yn effeithiol i gymunedau gwahanol.

Mae yna nifer o opsiynau posibl o ran datblygu'r cymorth a roddir i Bartneriaethau, ac rwy'n eu

hystyried yn ofalus cyn gwneud penderfyniad. Byddaf yn hysbysu'r Pwyllgor maes o law am fy mhenderfyniad.

## Gwerthusiad Interim Cymunedau yn Gyntaf

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ar 6 Gorffennaf fe gawsom drafodaeth ddefnyddiol iawn am ganfyddiadau Gwerthusiad Interim Cymunedau yn Gyntaf gan Cambridge Policy Consultants. Cyhoeddwyd adroddiad terfynol y gwerthusiad fis Medi ac fe'i lansiwyd mewn dau ddigwyddiad yn Neuadd Powis ym Mangor ar 20 Medi a Lido Afan yn Sandfields ar 21 Medi. Mae'r adroddiadau sydd ynghlwm yn cynnwys Crynodeb o'r Casgliadau a'r Argymhellion a Phrif Adroddiad Terfynol Gwerthusiad Interim Cymunedau yn Gyntaf. Cynhaliwyd y gwerthusiad gan dîm dan arweiniad Cambridge Policy Consultants, gan gynnwys Arwel Jones Associates, Danny Burns (Dysgu Cymdeithasol a Sefydliadol fel Ymchwil Weithredu, UWE), MORI, a'r Cities Research Centre.

Mae canfyddiadau Gwerthusiad Interim Cymunedau yn Gyntaf yn adolygu cynnydd cyffredinol y rhaglen. Nid yw'r gwerthusiad yn mesur cynnydd pob partneriaeth, ond mae'n canolbwyntio ar ddatblygiad cyffredinol y rhaglen. Mae wedi gwneud hyn trwy ystyried profiadau partneriaethau, cydgysylltwyr, cyrff sy'n derbyn grantiau, sefydliadau partner, sefydliadau cymorth, cyrff mantell a Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn sbarduno datblygiadau effeithiol i'r rhaglen sy'n ystyried yr effeithiau ar yr holl randdeiliaid.

Mae prif ganfyddiadau'r gwerthusiad yn pwysleisio'r angen i ganolbwyntio ar addasu rhaglenni, gwerthuso planedig a monitro lleol parhaus mewn perthynas ag amcanion y rhaglen er mwyn helpu i nodi a chysylltu anghenion a chyfleoedd. Mae'r canfyddiadau hefyd yn pwysleisio'r angen i weithredu cysylltiadau strategol yn lleol er budd cymunedau. Yn gyffredinol, mae'r gwerthusiad yn gadarnhaol ynghylch y ffordd rydym wedi gweithredu Cymunedau yn Gyntaf, ac yn canmol ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i rymuso cymunedau fel hyn. Mae'r adroddiad hefyd yn crybwyll ymateb cadarnhaol ac amserol datblygiad polisi i'r canfyddiadau sy'n deillio o'r ymchwil weithredu sydd wedi cyd-fynd â'r gwerthusiad hwn. Mae'r Canllawiau Rhoi Cymunedau'n Gyntaf newydd, yr ydym newydd gwblhau ymgynghoriad yn eu cylch, yn dystiolaeth o'r ymrwymiad hwn. Fel y gwelwch o'r Crynodeb o Gasgliadau ac Argymhellion sydd ynghlwm, mae'r adroddiad gwerthuso yn cynnwys 40 o argymhellion i'w hystyried. Mae'r argymhellion hyn yn effeithio'n ehangach nag ar Lywodraeth y Cynulliad yn unig, ac mae ganddynt oblygiadau ynghylch sut rydym yn gweithio gyda'n partneriaid, gyda phobl ar lawr gwlad ac ar sut rydym yn llunio'r rhaglen yn y dyfodol. Rwy'n ystyried yr argymhellion a byddwn yn croesawu sylwadau'r Pwyllgor ar y casgliadau a'r argymhellion hyn cyn i'r adroddiad gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn.

Cyhoeddir y dogfennau ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar:

http://new.wales.gov.uk/about/departments/dsjr/research/?lang=cy

## Adroddiad Llinell Sylfaen ar Gymunedau yn Gyntaf

Yn ogystal â Gwerthusiad Interim Cymunedau yn Gyntaf, mae 'Adroddiad Llinell Sylfaen' wedi'i gynhyrchu er mwyn cyflwyno amrywiaeth o ystadegau "llinell sylfaen" perthnasol ar gyfer ardaloedd

Cymunedau yn Gyntaf. Rwyf wedi gwneud hyn oherwydd bod angen arnom fesur cynnydd yn erbyn dangosyddion economaidd yn eu hardaloedd. Mae swyddogion Uned Ymchwil a Gwybodaeth Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn gweithio gyda swyddogion o'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol a Chartograffeg er mwyn cynhyrchu'r Adroddiad Llinell Sylfaen (sydd ynghlwm yn Atodiad B).

Mae'r adroddiad sylfaen yn cynnwys ffigurau o'r Cyfrifiad a'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer pob ardal Cymunedau yn Gyntaf ar gyfer 2001, a bydd yn cael ei ddiweddaru gyda threigl amser. Mae'r adroddiad ar gael ar

http://new.wales.gov.uk/about/departments/dsjr/research/c1stinterim/?lang=cy

Mae'r ymateb cynnar gan randdeiliaid yn dangos bod yr adroddiad hwn yn ffynhonnell wybodaeth werthfawr o ran ystadegau a chartograffeg, gan ei fod yn dwyn ynghyd y mapiau manwl ar gyfer yr holl ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Nid yn unig y mae rhanddeiliaid a phreswylwyr yn gallu cymharu ardaloedd o safbwynt ystadegol, gallant hefyd ystyried eu nodweddion ffisegol.

## Themâu Trawsbynciol

Mae union natur Cymunedau yn Gyntaf yn ei gwneud yn rhaglen drawsbynciol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod polisïau a rhaglenni eraill yn cael eu prif ffrydio er mwyn cefnogi gwaith Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf. Er enghraifft, mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, Her Iechyd Cymru a Chydweithfeydd Bwyd, Cyngor Chwaraeon Cymru a Chymorth.

## Camau Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Pwnc

Gwahoddir y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio i nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma yng nghyswllt Cymunedau yn Gyntaf ac i roi sylwadau ar ddatblygiad y rhaglen yn y dyfodol. Yn benodol, gofynnir i'r Pwyllgor roi ei sylwadau ar adroddiad Crynodeb Casgliadau ac Argymhellion Gwerthusiad Interim Cymunedau yn Gyntaf sydd ynghlwm yn Atodiad A.

Edwina Hart AC MBE
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
Pwynt Cyswllt: Siân Williams, Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau, Ffôn: 029 20801155